

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad â Jane Williams (Llansannan) yn ei phrofedigaeth o golli brawd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Gweddïwn fod y teulu oll yn profi tangnefedd a chysur cwmni Duw dros y dyddiau hyn.
- Yn parhau yn yr Inffirmari y mae William Jones (Llanefydd), er yn disgwyl bob dydd i gael dychwelyd adre. Gweddïwn ei fod ef a Glenys, a gweddiill y teulu yn adnabod yn ddyddiol agosrwydd yr Arglwydd. Mae Elfed Davies (Saron) hefyd yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Gweddïwn ei fod yntau yn profi nerth a daioni Duw.
- Bu'n rhaid i Meinir Jones (Groes) a Rhiannon Evans (Llansannan) dreulio ychydig o amser yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Anfonwn ein cofion at y ddwy ohonynt gan obeithio y cânt adferiad iechyd buan iawn. Yr un yw'n dymuniadau i Edward Jones (Llanefydd). Da deall iddo gael dod adre erbyn hyn.

Apêl Cartref Cariadus 2011



Yn ystod 2011, mae Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn codi arian tuag at gartref plant amddifad Hmangaihna In ym Mizoram, India. Gofynnir yn garedig i'r eglwysi anfon eu cyfraniadau i'r swyddfa yng Nghaerdydd erbyn Medi'r 1af.

I ddod

- **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan: www.llanw.org
- Yn oedfa'r bore ar Fai 1af, bydd **Eglwys Unedig Llansannan** yn gofyn barn yr eglwys ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- **Sasiwn Genhadol y Chwiorydd** yng Nghapel Moreia, Llangefni, dydd Mercher, Mai 4ydd.
- Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** a **Chyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul** yng Nghapel Bethania, Rhuthun ar nos Wener, Mai 13eg.
- **Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 13eg-15fed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565
- **Martyn Geraint** fydd yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Ebrill 2011

Cofiwch am yr Oedfa Gymun
i'r Fro yn Saron am 10.30
bore'r Groglith.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso i chwi i'r oedfaon a chofion cynnes at bawb sydd yn yr ysbytai, y cartrefi neu ar eu haelwyd.

Sul y Palmwydd yw hi heddiw pryd y byddwn yn cofio Iesu yn marchogaeth i mewn i Jerwsalem ar ddechrau Gŵyl y Pasg. Marchog, nid ar geffyl rhyfel ond ar ebol dinod i arwyddo ei fod yn dod mewn heddych ond yn dod, er hynny, i deyrnasu.

Cafodd groeso mawr a chynhyrfwyd y ddinas gan ei bresenoldeb. Daeth tyrfaoedd o'i ddisgyblion i'w gyfarch gan daflu eu mentyll o'i flaen a bloeddio eu croeso trwy ddweud "Hosanna" a "Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Arglwydd!" (Luc 19: 28- 44)

Prin na chawsai neb arall y fath groeso! Codwyd gwrychyn yr awdurdodau a chenfigen yng nghalon yr awdurdodau crefyddol. Roeddynt hwy yn dechrau ofni'r dorf - ofni colli eu statws i fab y saer o Nasareth a hwythau yn grach pwysig y brifddinas! Dyna beth oedd haerllugrwydd! Roedd hwn wedi bod yn boen iddynt ers blynnydoedd. Efallai, o'r diwedd y byddent yn cael cyfle i roi taw arno – ei garcharu efallai, neu ei ladd hyd yn oed. Tra roedd y dorf yn bloeddio eu croeso roedd eraill yn cynllwynio i'w ddal a'i ladd. Cymaint oedd cynnwrf ac arswyd ei bresenoldeb yn y ddinas.

Roedd yr Iesu'n croesawu bonllefau'r dorf. Dywedodd wrth y rhai oedd yn cwyno, "petai rhain yn tewi, bydd y cerrig yn canu!" Mab Dafydd ydoedd yn dod i Ddinas Dafydd fel brenin i hawlio'i orsedd. Dod fel Oen Duw i Jerwsalem i ddatlu'r Pasg. Dod fel oen i'r lladdfa ac yntau yn Fugail Da!

Tybed sut groeso a gaiff o gennym ni heddiw wrth iddo ddod at ddrws ein calon? Mae'n dod i'n calon fel y daeth i Jerwsalem. Dod i gynnig heddych rhyngom ni a'n Tad nefol – yr un yr ydym wedi pechu gymaint yn ei erbyn. Mae'n dod fel oen sydd â'i waed wedi ei dywallt trosom i'n gwneud yn iawn hefo Duw. Mae'n dod fel brenin i hawlio gorsedd ein calon!

Gweddïwn gyda'n gilydd heddiw ar iddo ddod eto yn nerth ei Ysbryd atom ac ynom. "Yn wir, tyred Arglwydd Iesu!" yw bonllef yr Eglwys o hyd.

Ar drothwy'r 'wythnos fawr' dymunwn hyn yn anad dim byd arall – y daw'r Iesu atom yn ei nerth a'i awdurdod fel brenin i'w ddinas ei Hun.

"Marchog Iesu yn llwyddiannus, gwisg dy gleddau 'ngwasg dy glun,
Ni all daear dy wrth'nebu, chwaith nac uffern fawr ei hun!
Mae dy enw mor ardderchog, pob rhyw elyn gilia draw,
Mae dy arswyd trwy'r greadigaeth ... Tyrd, gan hynny, maes o law."

(William Williams – rhif 262 Caneuon Ffydd)

Boed i ninnau brofi cynnwrf ac arswyd ei bresenoldeb.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00.

Mercher **Darganfod Cristnogaeth** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.

Gwener y Groglith **Oedfa Gymun i'r Fro** yn Saron am 10.30.

Sul nesaf Dewch i ddathlu yn **Oedfa Arbennig y Pasg i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Owain Edwards, Coleg y Bala yn arwain y canu, Aneurin yn pregethu a phaned i bawb yn dilyn yr oedfa. Dewch â ffrind efo chi.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Eifion Jones yn arwain oedfa yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Gwener Cynhelir Oedfa'r Groglith yn Groes am 7.00 gyda'r Parch Huw Powell Davies yn pregethu.

Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00.

Sul nesaf Bydd Oedfa Deuluol yng Nghefn Berain am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig i Apêl Cartref Cariadus, Mizoram. Bydd paned yn dilyn yr oedfa. Yn Llanefydd, cynhelir Gwasanaeth y Pasg gan blant yr Ysgol Sul am 10.00 a bydd Gwasanaeth Pasg yr Ieuenctid am 6.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau
i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau